❖ Y Nadolig Cyntaf

Ganwyd Tywysog inni – Iôr ei Hun
sy'n mawrhau y geni.
Daeth Hwn o'i fodd i roddi
bywyd y Nef i'n byd ni.

Mor annwyl oedd Mair yno – a Joseff,
a'r Iesu'n disgleirio.
Ernes y Nef oedd arno,
Duw ei Hun oedd ei Dad O.

Ym Methlehem caed emyn – yng ngolau'r
angylion i'r Duwddyn
a yrrwyd yn flaguryn
byw o'i Dad, er achub dyn.

O noeth gaban daeth gobaith – i weiniaid
un serennog noswaith.
Caed amod mai cydymaith
ydyw Hwn hyd ben y daith.

I'n byd oer daeth Mab y Dyn – yn ddifalch
ac yn Ddwyfol blentyn.
Yr Iesu yn nhrigfa'r asyn
yn wir oedd yr Iôn Ei Hun.

Heb wely mewn gwych balas – heb glydwch,
harddwch, na dim urddas.
Ond Aer oedd o uchel dras,
na anwyd yn 'run ddinas.

R. J. Jones

℗ Cyhoeddiadau'r Gair www.ysgolsul.com